Er Cof: John Hilling (1934-2024)

Dyma ddywed David Lermon: ‘Fe wnaeth John Hilling gymaint i annog diddordeb yn nhreftadaeth adeiledig Cymru. Cafodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg Tredegar ac astudiodd yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru yng Nghaerdydd. Cymhwysodd fel pensaer ym 1956, pan oedd yn 21 oed. Dechreuodd ei yrfa yn swyddfa Syr Basil Spence yn Llundain, ac ar ôl hynny ymgartrefodd yng Nghaerdydd gyda’i wraig a’i deulu er mwyn rhoi addysg Gymraeg i’w dri phlentyn. Yn 1960, enillodd John y wobr gyntaf o £100 yn y brif gystadleuaeth bensaernïol yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd, am ganolfan gynadledda a derbyn.

Yn y 1960au, bu’n gweithio i benseiri Syr Percy Thomas, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bu'n rhan o’r tîm dylunio a fu’n gyfrifol am y ganolfan ymwelwyr yn Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan – yr ysbrydoliaeth ar gyfer hynny oedd cariad John tuag at bensaernïaeth Lychlynnaidd (cafodd ei rhestru'n ddiweddarach, Gradd II). Gyda'r tîm, aeth John ymlaen i ddylunio nifer o adeiladau adnabyddus yng Nghaerdydd a'r cyffiniau, gan gynnwys ystâd Billy Banks ym Mhenarth, ac Adeilad y Tŵr ym Mhrifysgol Caerdydd, ym Mharc Cathays.

Yn ystod y 1970au, daeth John yn bartner gydag Alex Robertson, Peter Francis a Phartneriaid yng Nghaerdydd, gan weithio ledled de Cymru. Ar ddechrau’r 1980au, symudodd John i Cadw, a gweithio fel pensaer cadwraethol nes iddo ymddeol.

Bu John yn awdur toreithiog, ac ysgrifennu nifer o lyfrau arloesol ar bensaernïaeth hanesyddol Cymru, gan gynnwys *Cardiff and the Valleys* (1973), *The Historic Architecture of Wales* (1976; diwygiwyd a diweddarwyd 2018), a *The History & Architecture of Cardiff Civic Centre* (2016). Ef hefyd a guradodd arddangosfa ddylanwadol Cyngor Celfyddydau Cymru 1975 (a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ac Aberystwyth) *Plans & Prospects: Architecture in Wales 1780-1914*. Mae Cymdeithas Fictorianaidd Cymru yn ei teimlo’i golli’n fawr.